



Sut mae gwneud cais am orchymyn?

Gorchymyn i gael gwybodaeth gan rywun sydd mewn dyled i chi

Cyn darllen y daflen hon, dylech fod wedi darllen y daflen **EX321 - Rwyf wedi cael dyfarniad ond nid yw'r diffynnydd wedi talu - Beth ddylwn i ei wneud?** Mae'n esbonio:

- beth sydd ar gael i'ch helpu i gael eich arian (sef 'gorfodi eich dyfarniad'); a
- pha rai o'r dulliau gorfodi sydd ar gael sy'n debygol o fod fwyaf llwyddiannus mewn gwahanol amgylchiadau.

Cofiwch, pwrpas y daflen hon yw rhoi syniad cyffredinol i chi am y broses dan sylw. Ni all egluro popeth am reolau a threfniadau'r llys. Os ydych chi'n ansicr am unrhyw beth, naill ai yn y daflen, neu am bethau sy'n digwydd nad yw'r daflen yn sôn amdany'n nhw, gofynnwch i aelod o'r staff mewn unrhyw lys sirol neu asiantaeth gynghori.

Beth yw gorchymyn i gael gwybodaeth?

Nid math o orfodaeth i sicrhau eich bod chi'n cael eich arian ydy hwn. Yn hytrach, ffordd o gael gwybodaeth gan y diffynnydd ydy hi (sef gan 'ddyledwr y dyfarniad' pan fyddwch chi'n defnyddio'r drefn hon: chi fydd 'credydwr y dyfarniad'). Bydd yr wybodaeth yn eich helpu chi i benderfynu:

- a yw'n werth cymryd cam gorfodi; ac os ydyw,
- pa ddull sydd ar gael sydd fwyaf tebygol o gael eich arian yn ôl i chi.

Os byddwch yn defnyddio'r weithdrefn hon, gorchmynnir y dyledwr i ddod i'r llys i'w holi, ar lw, gan swyddog y llys. Dyma'r math o wybodaeth a gewch chi drwy'r holi:

- statws cyflogaeth;
- os yw'n briodol, manylion y cyflogwr a chyflog neu dâl;
- manylion dibynnyddion a'r costau a delir o'r incwm;
- manylion unrhyw incwm ychwanegol;

- manylion unrhyw eiddo mewn perchnogaeth (tŷ, car, carafán, ayyb), a all fod â gwerth gwerthadwy;
- manylion unrhyw gyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu, a'r gweddill ynddynt.

Mae'r cwestiynau y bydd swyddog y llys yn gofyn i ddyledwr wedi'u rhestru yn ffurflen EX140 Cofnod archwiliad, a gellir cael copi ohoni o'r llys.

Pryd ga'i wneud cais am orchymyn i gael gwybodaeth?

Gallwch wneud cais am orchymyn unrhyw bryd ar ôl i chi gael dyfarniad. Nid oes rhaid i'r dyledwr fod ar ei hôl hi gyda'r taliadau.

Beth sy'n rhaid i mi ei wneud i gyflwyno cais am orchymyn?

Mae'r hyn sydd angen i chi ei wneud yn dibynnu a yw'r dyledwr a wnaethoch ei erlyn:

- yn unigolyn; neu
- yn gwmni neu'n gorfforaeth.

Os unigolyn yw dyledwr, mae'n rhaid i chi lenwi Ffurflen N316 (Cais am orchymyn i ddyledwr y dyfarniad ddod i'r llys ar gyfer ei holi). Mae'r ffurflen ar gael ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk. Rhaid i chi wneud eich cais i ganolfan wrandawiadau Llys Sirol ble mae'r dyledwr yn byw. Cewch hyn yn courtribunalfinder.service.gov.uk.

Bydd y ganolfan wrandawiadau Llys Sirol yn ardal cartref y dyledwr yn trefnu bod yr hawliad yn cael ei drosglwyddo iddo, fel y gallant brosesu eich cais.

Os yw'r dyledwr yn gwmni, gallwch ofyn i un o swyddogion y cwmni hwnnw yn cael ei holi ynghylch materion y cwmni, er enghraifft, Cyfarwyddwr. Gallwch gael gwybod pw ydy swyddogion y cwmni, a'u cyfeiriadau, drwy chwilio drwy Gofrestr y Cwmniau yn Nhŷ'r Cwmniau. Gallwch gael ffurflen gais i wneud chwiliad a manylion y ffi sy'n daladwy drwy ffonio 0303 1234 500.

Wedi i chi gael yr wybodaeth, dylech lenwi ffurflen N316A.

Lle mae'r daflen hon yn cyfeirio at 'dyledwr', mae hyn hefyd yn golygu unrhyw swyddog sy'n cael ei holi ar ran ei gwmni.

Pa wybodaeth fydd ei hangen arna'i i lenwi ffurflen N316 (neu ffurflen N316A)?

Bydd gofyn i chi wybod:

- beth yw enw a chyfeiriad y dyledwr;
- manylion y dyfarniad sydd gennych yn erbyn dyledwr;
- a oes unrhyw gwestiynau penodol yr ydych eisiau eu gofyn i ddyledwr; a
- a oes unrhyw ddogfennau penodol yr ydych eisiau i ddyledwr ddod i'r llys i ddarparu gwybodaeth, neu gefnogi'r wybodaeth a cheisir.

Yn achos ffurflen N316A, disgrifiad o swyddog y cwmni (Cyfarwyddwr, Ysgrifennydd y Cwmni, ac ati) a chyfeiriad yr unigolyn hwnnw.

Sut fydda' i'n gwybod a ddylwn i ofyn cwestiynau ychwanegol neu ofyn am ddogfennau penodol?

Yn gyntaf, darllenwch y nodiadau ar ffurflen N316 (Cais am orchymyn i ddyledwr y dyfarniad ddod i'r llys ar gyfer ei holi) neu ffurflen N316A. Mae'r rhain yn dweud wrthy ch pa ddogfennau y gofynnir fel arfer i ddyledwr y dyfarniad ddod gydag ef/gyda hi ar gyfer yr holi. Rhaid i chi benderfynu a oes unrhyw faterion eraill y gellid eu cadarnhau drwy gyfrwng dogfen sydd heb ei rhestru eisoes. Yn yr un modd, byddwch chi'n gallu gweld y cwestiynau y bydd swyddog y llys fel arfer yn eu gofyn. Mae'r rhain wedi eu rhestru yn ffurflen EX140 (neu EX141) (Cofnod archwiliad). Penderfynwch a fydddech chi'n hoffi i swyddog y llys ofyn unrhyw gwestiynau eraill. Ond cofiwch, mae'n rhaid bod cysylltiad uniongyrchol rhwng y cwestiynau a'r dogfennau, a gallu dyledwr y dyfarniad neu'r cwmni perthnasol i dalu.

Fydd rhaid i mi dalu ffi i wneud y cais?

Bydd. Gallwch lawr lwytho copi o'r ffurflen **EX50 Ffioedd Llys Sifil a Llys Teulu** o hmctsformfinder.justice.gov.uk

Cofiwch, nid yw'r llys yn gallu sicrhau y cewch eich arian yn ôl. Mae'n bosib y caiff y ffi a dalwch ei hychwanegu at y swm sy'n ddyledus, ond llwyddiant unrhyw ddull gorfodi a ddefnyddiwyd fydd yn penderfynu a gaiff y swm hwnnw ei dalu ai peidio. Ni allwch ofyn am ad-dalu'r ffi.

Beth os na alla'i fforddio'r ffi?

Efallai ni fydd angen i chi dalu ffi'r llys oherwydd eich sefyllfa ariannol, neu byddai talu ffi, yn achosi caledi i chi. Mae'r llyfryn a ffurflen cyfunol **EX160A Ffioedd Llys a Thribiwnlysoedd – A oes rhaid i mi eu talu?** yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am y system dileu ffi ac yn cynnwys ffurflen dileu ffi. Mae'r llyfryn ar gael ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk

Bydd yn rhaid i chi wneud cais ar wahân am bob ffi sy'n daladwy.

Beth fydd y llys yn ei wneud gyda fy nghais?

Bydd y llys yn llunio gorchymyn yn Ffurflen N39 (Gorchymyn i ddod i'r llys ar gyfer holi), gan ddefnyddio'r wybodaeth a roesoch chi yn eich cais. Bydd y gorchymyn yn:

- rhoi amser, dyddiad a lleoliad i ddyledwr y dyfarniad fod yn bresennol i gael ei holi;
- esbonio bod rhaid i'r ddyledwr fod yn bresennol a bod rhaid iddo/iddi ateb, ar lw, y cwestiynau y bydd swyddog y llys yn eu gofyn;
- dweud wrth ddyledwr y dyfarniad am ofyn i chi ddarparu'r arian digonol ar gyfer unrhyw gostau teithio i'r llys ac yn ôl os oes angen, a bod rhaid gwneud y cais hwn i chi o fewn saith diwrnod ar ôl derbyn y gorchymyn i fod yn bresennol; ac yn
- dweud wrth ddyledwr y dyfarniad, sy'n dymuno talu'r swm sy'n ddyledus, y dylid talu'r arian yn uniongyrchol i chi.

Mae'r gorchymyn hefyd yn cynnwys rhybudd i ddyledwr y dyfarniad y gallai methu â gwneud yr hyn y mae'r gorchymyn yn ei ddweud arwain at ddedfryd o garchar.

Os byddwch chi'n derbyn y taliad yn llawn cyn i'r holi ddigwydd, rhaid i chi roi gwybod i'r llys ar unwaith. Cofiwch ddweud wrth y llys ymhle y cynhelir yr holi. Ddylech chi ddim poeni os nad oes neb yn gofyn i chi am gostau teithio (ond gweler drosodd). Ymhle y cynhelir yr holi?

Bydd yr holi'n digwydd yn llys yr ardal lle mae dyledwr y dyfarniad yn byw neu'n cynnal busnes. Mae'n bwysig eich bod yn nodi'r llys cywir wrth wneud eich cais. Rhaid i chi ffeilio unrhyw ddogfennau y mae angen i chi eu ffeilio sy'n ymwneud â'r holi (gweler dros y ddalen) yn y llys hwnnw.

Fydd rhaid i mi fod yn bresennol yn yr holi?

Does dim rhaid i chi fod yn bresennol oni bai eich bod chi wir yn dymuno bod. Bydd un o swyddogion y llys yn gofyn y cwestiynau yn ffurflen EX140 Cofnod archwiliad (neu ffurflen EX141 os mai swyddog cwmni sy'n cael ei holi), ynghyd ag unrhyw gwestiynau ychwanegol roeddech chi am eu gofyn. Bydd swyddog y llys yn cofnodi'r atebion ar y ffurflen briodol.

Ar ôl yr holi, fe anfonir copi o'r ffurflen wedi'i llenwi atoch chi. Bydd y ffurflen hefyd yn dweud wrthy ch pa ddogfennau y cyflwynodd dyledwr y dyfarniad i gefnogi'r wybodaeth a roddwyd.

Sut mae'r dyledwr yn cael gorchymyn i fod yn bresennol ar gyfer ei holi?

Rhaid rhoi copi o'r gorchymyn i ddyledwr yn bersonol. Gelwir hyn yn 'cyflwyno personol'. Hynny yw, rhaid i chi, neu rywun ar eich rhan, roi'r gorchymyn i fod yn bresennol ar gyfer holi i ddyledwr yn bersonol. Fodd bynnag, gall asiant gorfodi gyflwyno'r gorchymyn i ddyledwr ar eich rhan. Mae ffi ychwanegol am y gwasanaeth hwn. Am ragor o wybodaeth, gweler ffurflen EX50 – Ffioedd y Llys Sifil a'r Llys Teulu sydd ar gael ar-lein.

Chewch chi ddim gadael y gorchymyn gyda rhywun arall yng nghyfeiriad y dyledwr, na'i bostio drwy'r blwch llythyrau.

Rhaid cyflwyno'r gorchymyn i fod yn bresennol ar gyfer holi **o leiaf 14 diwrnod cyn y dyddiad** a bennwyd ar gyfer yr holi.

Beth os na alla'i gyflwyno'r gorchymyn o fewn y cyfnod hwnnw?

Os chi sy'n gyfrifol am gyflwyno'r gorchymyn i fod yn bresennol, bydd y llys wedi anfon dau gopi o'r gorchymyn atoch chi (ffurflen N39) - un i'w roi i ddyledwr y dyfarniad ac un i'w ddefnyddio'n ddiweddarach i gadarnhau ei fod wedi'i gyflwyno (gweler isod). Dylech ddychwelyd y ddau gopi o'r gorchymyn i'r llys lle cynhelir yr holi. Dylech chi esbonio nad ydych chi wedi llwyddo i gyflwyno'r gorchymyn mewn pryd, a gofyn i'r llys bennu dyddiad arall. Rhaid i chi wneud hyn o leiaf 7 diwrnod cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer yr holi. Bydd y llys yn pennu dyddiad newydd ac yn dychwelyd y ddau gopi o'r gorchymyn atoch chi i chi geisio'i gyflwyno eto.

Os beili'r llys sirol sy'n gyfrifol am gyflwyno'r gorchymyn, ond nad yw'n llwyddo i'w gyflwyno i ddyledwr y dyfarniad mewn pryd, bydd y llys yn rhoi gwybod i chi. Rhoddir dyddiad newydd i chi a bydd y papurau'n cael eu dychwelyd i'r beili. Bydd y llys yn rhoi gwybod i chi beth yw'r dyddiad newydd ar gyfer yr holi.

Pam mae'n rhaid cyflwyno'r gorchymyn i fod yn bresennol yn bersonol?

Oherwydd, os na fydd dyledwr y dyfarniad yn bresennol i gael ei holi, neu os bydd yn dod i'r llys ond yn gwrthod tyngu llw neu ateb cwestiynau, gall barnwr benderfynu rhoi dedfryd o garchar i ddyledwr y dyfarniad. Fodd bynnag, ni chaiff barnwr roi dedfryd o garchar iddynt oni bai:

- fod prawf eich bod chi, neu rywun ar eich rhan, wedi cyflwyno copi o'r gorchymyn i ddyledwr y dyfarniad yn bersonol;

- bod tystiolaeth ynghylch a yw dyledwr y dyfarniad wedi gofyn i chi am gostau teithio digonol ar gyfer y daith i'r llys ac yn ôl ai peidio; a
- bod cadarnhad bod yr arian sy'n ddyledus i chi, neu unrhyw ran ohono, heb ei dalu.

Sut bydd y barnwr yn gwybod y pethau hyn?

Oherwydd bydd rhaid i chi, ac unrhyw un sy'n cyflwyno'r gorchymyn i fod yn bresennol ar eich rhan, ddarparu gwybodaeth i gadarnhau'r pethau hyn.

Sut mae'n rhaid darparu'r cadarnhad?

Rhaid i chi ddarparu datganiad ar lw (affidafid) yn dweud sut a pha bryd y cyflwynwyd y gorchymyn i ddyledwr y dyfarniad. Os rhywun arall gyflwynodd y gorchymyn ar eich rhan, rhaid i hwnnw/honno dyngu llw ar yr affidafid. Rhaid rhoi copi o'r gorchymyn a gyflwynwyd ynghlwm wrth yr affidafid (arddangosiad).

Os beili'r llys sirol gyflwynodd y gorchymyn, bydd y beili'n llenwi tystysgrif cyflwyno ar gyfer y llys lle cynhelir yr holi. Does dim rhaid i chi wneud dim arall o ran y cyflwyno.

Rhaid i chi hefyd dyngu llw ar affidafid yn dweud a yw dyledwr y dyfarniad wedi gofyn i chi am gostau teithio ai peidio, ac os ydyw, faint o arian a roddwyd. Peidiwch â phoeni os nad yw dyledwr y dyfarniad yn gofyn am gostau teithio - y cyfan sydd raid i chi ei wneud yw dweud yn eich affidafid nad oes neb wedi gofyn am gostau. Ni fydd eich achos yn dioddef o ganlyniad i hyn, gan eich bod chi wedi cynnig ac nid eich bai chi yw bod dyledwr y dyfarniad wedi dewis anwybyddu'r cynnig. Rhaid i ddyledwr y dyfarniad ofyn am gostau teithio o fewn saith diwrnod iddo dderbyn y gorchymyn i fod yn bresennol ar gyfer holi. Cofiwch felly na allwch dyngu llw ar eich affidafid tan ar ôl hynny.

Rhaid i'ch affidafid naill ai gadarnhau bod y cyfan o'r arian a oedd yn ddyledus pan gychwynwyd eich cais heb ei dalu, neu roi manylion y gweddill sy'n ddyledus os ydych wedi derbyn unrhyw daliadau gan ddyledwr y dyfarniad yn y cyfamser.

Ymhle ga'i ffurflen affidafid?

Mae ffurflen affidafid (ffurflen EX550) ar gael o unrhyw ganolfan wrandawiadau Llys Sirol neu ar-lein. Bydd angen i chi gysylltu a'r ganolfan wrandawiadau Llys Sirol cyn i chi gyrraedd oherwydd efallai bydd angen i chi wneud apwyntiad. Mae'r affidafid yn ymwneud â chyflwyno, costau teithio a'r gweddill sy'n ddyledus ar y ddyled. Llenwch y rhannau hynny o'r affidafid sy'n berthnasol i chi, gan groesi'n dwt drwy unrhyw rannau amherthnasol. Rhaid rhoi copi o'r ffurflen N39 (Gorchymyn i fod yn bresennol ar gyfer holi) ynghlwm wrth yr affidafid os chi sydd wedi'i gyflwyno. Mae'n rhaid ffeilio copi o'r affidafid yn y ganolfan wrandawiadau Llys Sirol lle bydd yr holi i ddigwydd. Rhaid ei ffeilio o **leiaf dau ddiwrnod cyn dyddiad yr holi**. Anfonwch eich affidafid gyda llythyr yn nodi'n glir ddyddiad ac amser yr holi.

Cofiwch, dim ond chi sy'n gallu tyngu llw ar affidafid am gostau teithio a'r gweddill sy'n ddyledus. Os rhywun arall a gyflwynodd y gorchymyn i fod yn bresennol ar eich rhan, rhaid iddyn nhw dyngu ar affidafid eu hunain ynghylch hyn, gan groesi'n dwt drwy'r rhannau o'r affidafid sy'n ymwneud â chostau teithio a'r gweddill sy'n ddyledus.

Ymhle ga'i dyngu llw ar yr affidafid?

Mewn unrhyw ganolfan wrandawiadau Llys Sirol, bydd swyddog y llys yn gwneud hyn yn rhad ac am ddim i chi. Dylech chi gysylltu â'r ganolfan wrandawiadau Llys Sirol cyn i chi gyrraedd oherwydd efallai bydd angen i chi wneud apwyntiad. Bydd swyddog y llys yn gofyn i chi lofnodi eich affidafid ac yna'n gofyn i chi dyngu llw bod cynnwys yr affidafid yn wir. Gallwch hefyd fynd at gyfreithiwr neu gomisiynydd llwon, ond bydd y rhain yn codi tâl arnoch chi am dyngu llw ar affidafid.

Beth fydd yn digwydd yn yr holi?

Gofynnir i ddyledwr y dyfarniad dyngu llw, neu gadarnhau, cyn i'r holi ddechrau. Bydd un o swyddogion yn y llys yn esbonio beth yw pwrpas y llw a'r holi, ac yna'n gofyn yr holl gwestiynau perthnasol yn ffurflen EX140 (neu EX141) i ddyledwr y dyfarniad, ac unrhyw gwestiynau ychwanegol rydych chi wedi'u hawgrymu. Bydd swyddog y llys yn ysgrifennu'r atebion i'r cwestiynau ar y ffurflen briodol. Ar ddiwedd yr holi, gofynnir i ddyledwr y dyfarniad lofnodi'r ffurflen i ddweud ei bod yn adlewyrchu'r atebion a roddwyd. Bydd swyddog y llys hefyd yn nodi pa ddogfennau y cyflwynodd dyledwr y dyfarniad i gadarnhau'r wybodaeth a roddwyd. Ar ôl yr holi, anfonir copi o'r Cofnod archwiliad atoch chi.

Beth fydd yn digwydd os nad yw dyledwr y dyfarniad yn bresennol, neu os yw'n bresennol, ond yn gwrthod tyngu llw neu ateb cwestiynau?

Bydd swyddog y llys yn nodi hynny ar dystysgrif. Bydd y dystysgrif yn cael ei hanfon at farnwr cylchdaith ynghyd â'r affidafid(au) sy'n ymwneud â'r cyflwyno, y costau teithio a'r gweddill sy'n ddyledus. Ar ôl edrych ar y dogfennau, os ydy'r barnwr yn fodlon fod dyledwr y dyfarniad heb gydymffurfio â'r gorchymyn i fod yn bresennol ar gyfer holi, bydd y barnwr yn gorchymyn cychwyn gorchymyn traddodi gohiriedig. Bydd y gorchymyn yn ffurflen N79A (gorchymyn traddodi gohiriedig).

Beth yw gorchymyn traddodi gohiriedig?

Gorchymyn i draddodi dyledwr y dyfarniad i garchar yw gorchymyn traddodi. Fodd bynnag, ni fydd yn dod i rym ar unwaith. Caiff y gorchymyn i draddodi dyledwr y dyfarniad i garchar ei ohirio, hynny yw ni fydd yn digwydd, os bydd dyledwr y dyfarniad yn bresennol ar gyfer holi ar ddyddiad newydd, ei fod yn tyngu llw ac yn ateb cwestiynau.

Oes rhaid cyflwyno'r gorchymyn hwn yn bersonol?

Oes. Mae hyn oherwydd y gall arwain at ddedfryd o garchar ac mae'n rhaid i'r llys fod yn sicr bod dyledwr y dyfarniad wedi cael y gorchymyn. Os chi sy'n gyfrifol am gyflwyno, bydd y llys yn anfon dau gopi o ffurflen N79A atoch. Rhaid cyflwyno'r gorchymyn hwn o fewn yr un amserlen â'r gorchymyn gwreiddiol, sef, o leiaf 14 diwrnod cyn dyddiad yr holi. Rhaid ffeilio eich affidafid cyflwyno o leiaf dau ddiwrnod cyn dyddiad yr holi. Fodd bynnag, y tro hwn, does dim rhaid i chi boeni am gostau teithio. Mae dyledwr y dyfarniad eisoes wedi cael cyfle i ofyn am y costau hyn, ac efallai ei fod eisoes wedi gofyn amdanynt neu wedi methu â gwneud hynny.

Os beili llys sirol sydd wedi cyflwyno'r ffurflen N39 ar eich rhan, yna, beili fydd yn cyflwyno'r ffurflen N79A ar eich rhan hefyd.

Fel sy'n wir am ffurflen N39, os na allwch chi, neu feili'r llys sirol, gyflwyno'r ffurflen i ddyledwr y dyfarniad, yna bydd rhaid i'r llys bennu dyddiad newydd ar gyfer yr holi. Cewch wybod beth yw'r dyddiad newydd os y beili sy'n cyflwyno'r gorchymyn. Rhaid i chi roi gwybod i'r llys o leiaf saith diwrnod cyn dyddiad yr holi os nad ydych wedi gallu cyflwyno'r gorchymyn traddodi gohiriedig.

Beth fydd yn digwydd os bydd dyledwr y dyfarniad yn methu â bod yn bresennol ar y dyddiad a nodir yn y gorchymyn traddodi gohiriedig?

Bydd gwarant arestio yn cael ei godi a'i roi i asiant gorfodi'r Llys Sirol. Mae'r warant yn rhoi'r awdurdod i'r asiant gorfodi i arestio dyledwr. Wedi i ddyledwr gael ei arestio, bydd yr asiant gorfodi yn mynd â dyledwr i'r llys i'w ddwyn gerbron barnwr. Os yw dyledwr yn cytuno i gael ei holi gan un o swyddogion y llys yn y fan a'r lle, bydd y barnwr fel arfer yn gollwng y gorchymyn traddodi gohiriedig. Os bydd dyledwr yn gwrthod cael ei holi, neu'n methu â chydymffurfio â'r gorchymyn i fod yn bresennol ar gyfer holi mewn unrhyw fodd arall, fel arfer codir gwarant i draddodi ar unwaith. Mae gwarant i draddodi'n rhoi'r awdurdod i'r asiant gorfodi fynd â dyledwr i'r carchar am y cyfnod a bennwyd yn y gorchymyn traddodi gohiriedig.